# Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

## Yr Adran Addysg a Sgiliau

## Adroddiad Diweddariad Blynyddol ar weithredu'r Cynllun Busnes

## Yn cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2013 i Mawrth 2014

**Swyddogion Adrannol Arweiniol ar gyfer y Cynllun Busnes**

**Melanie Godfrey, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyflogaeth a Sgiliau**

### Cyflwyniad

Mae'r Adran yn gyfrifol am addysg a sgiliau yng Nghymru ac yn gweithio i godi safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant, cyrhaeddiad a seilwaith.

Ein nod yw darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i bob dysgwr, fel bod pawb yn gallu gwireddu eu potensial a darparu gweithlu sydd â'r sgiliau addas.

Mae'r Adran yn cefnogi unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau ac wrth wneud hynny yn cyfrannu at wella lles economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn hefyd yn lleihau anghydraddoldeb drwy gyfrwng addysg a hyfforddiant.

### Trosolwg Sefydliadol

Mae'r Adran yn cael ei harwain gan Gyfarwyddwr Cyffredinol a'i chefnogi gan dri Grŵp dan arweiniad Cyfarwyddwyr – y Grŵp Safonau a Gweithlu Ysgolion, y Grŵp Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr a'r Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu gydol Oes. Mae yna un Is-adran y tu allan i'r Grwpiau sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol – yr Is-adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae'r tri Grŵp wedi'u trefnu fel a ganlyn:

Grŵp Safonau a Gweithlu Ysgolion -
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Is-adran Safonau Ysgolion a Chyflawni
Yr Uned Strategaeth a'r Gweithlu
Uned TGCh

Grŵp Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr -
Yr Is-adran Cwricwlwm
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Uned Seilwaith
Yr Is-adran Cymwysterau a Rheoliadau

Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes –
Yr Is-adran Cyflogaeth a Sgiliau

Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Yr Is-adran Addysg Uwch
Yr Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid

**Trosolwg o gynnydd yr Adran**

Mae paratoi dysgwyr am fywyd a gwaith yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran Addysg a Sgiliau, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y ffaith fod pob rhaglen gan yr Adran yn cyd-fynd â'r amcan hwn.

Mae gan yr Adran bedair prif ddogfen strategol sy'n llywio ein camau gweithredu a threfnu ein hymwneud â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. Y dogfennau strategol yw:

- Y Cynllun Gwella Addysg – mae'r cynllun hwn yn rhoi manylion am ein strategaeth i ddiwallu anghenion pobl ifanc 3-19 oed mewn ysgolion.
- Y Cynllun Gweithredu Sgiliau – mae hwn yn cynnwys dysgwyr ôl-16 oed mewn colegau Addysg Bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau cyflogwyr.
- Datganiad Polisi Addysg Uwch – mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion y cymorth y byddwn yn ei gynnig i ddysgwyr dros 18 oed mewn prifysgolion.
- Polisi Dysgu Oedolion yn y Gymuned – mae'r strategaeth hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

Mae yna themâu cyffredin ym mhob un o'r dogfennau strategol uchod sy'n cyd-fynd â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Y themâu cyffredin yw:

- Swyddi a thwf
- Tegwch a chydraddoldeb
- Cynaliadwyedd ariannol
- Meincnodi rhyngwladol

Ymhellach, mae adroddiad Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, *First Steps,* yn fan cyfeirio i'r Adran. Mae'r adroddiad yn nodi barn byd busnes ar y diwygiadau sydd angen eu cyflwyno i sicrhau system addysg lwyddiannus, gan ddefnyddio enghreifftiau rhyngwladol a'u seilio ar gyfres o egwyddorion craidd.

Mae'r Adran wedi penodi'r Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad cynhwysfawr ac annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo hefyd i ddadansoddi canlyniadau PISA i sicrhau bod elfennau'r gwaith yn y Cynllun Gwella Addysg yn cyd-fynd â'r amcan o godi cyrhaeddiad dysgwyr.

Mae'r Adran wedi gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion i alluogi disgyblion i ennill canlyniadau TGAU rhagorol yn 2013/14, gyda 55.1% o ddisgyblion 15 oed yn cyrraedd trothwy Lefel 2, yn cynnwys TGAU gradd A* - C mewn Cymraeg neu Saesneg Iaith a Mathemateg. Mae hyn yn gynnydd o 2.3% ers

2012/13 ac 11% ers 2006/07 pan ddechreuwyd cofnodi'r wybodaeth hon. Ochr yn ochr â'r canlyniadau arholiad gwell i'n disgyblion, mae'r gwahaniaeth yng nghyrhaeddiad y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim wedi bod yn culhau dros y 3 blynedd diwethaf.

Rydym yn parhau i weld gwelliant sylweddol yn lefelau cymwysterau oedolion o oedran gweithio ac maent wedi cyrraedd y lefelau uchaf erioed ers dechrau cofnodi. Mae gan dros dri chwarter gymwysterau cyfwerth â TGAU da (Lefel 2) erbyn hyn, sy'n drothwy pwysig ar gyfer cael swydd. Mae gan dros hanner gymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth (Lefel 3) o leiaf ac mae gan dros draean gymwysterau lefel gradd (Lefel 4).

Daeth yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru i ben ym mis Rhagfyr 2012 ac roedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gennym ni gymwysterau sy'n cael eu deall, eu gwerthfawrogi ac sy'n diwallu anghenion pobl ifanc ac economi Cymru.

Mae'r argymhellion yn cynnwys ffocws clir ar sgiliau llythrennedd a rhifedd ac yn cynnwys datblygu dau gymhwyster TGAU mathemateg newydd, un ar gyfer rhifedd a'r llall ar gyfer technegau mathemateg. Argymhellir hefyd y dylid datblygu Bagloriaeth Cymru drwy ei diwygio a'i gwneud yn, fwy trwyadl gan adeiladu ar gryfderau'r model cyfredol, ond gyda ffocws clir ar ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr ac addysg uwch, yn cynnwys llythrennedd a rhifedd.

Ym mis Mai 2013, ar ôl cwblhau'r Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16, cyhoeddwyd adroddiad terfynol. Rydym wedi ad-drefnu ein gwaith mewn perthynas ag addysg ôl-16, i roi ystyriaeth well i anghenion busnesau ac i sicrhau bod unigolion yn fwy parod am y newid i amgylchedd gwaith neu i ddysgu pellach, yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn. Mae'r newidiadau wedi cynnwys newid i drefniadau cyllido, gan roi mwy o ystyriaeth i ffactorau economaidd lleol a chynnwys ymrwymiad i annog busnesau i ddarparu prentisiaethau yn sgil yr effaith gadarnhaol maent yn ei chael ar unigolion a busnesau.

Mae ymgysylltu allanol yn dal i fod yn flaenoriaeth i bob isadran yn yr Adran Addysg a Sgiliau, sy'n parhau i weithio'n agos â busnesau ac Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i sicrhau gwaith cydgysylltiedig a bod targedau ac amcanion a rennir yn cael eu cyflawni.

**<u>Gweithgareddau</u>**

**Y Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes**

1. **Yr Is-adran Cyflogaeth a Sgiliau**

Yn ystod y cyfnod, cyhoeddodd yr Is-adran Cyflogaeth a Sgiliau Ddatganiad Polisi ar Sgiliau ym mis Ionawr 2014 a arweiniodd at gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni ym mis Gorffennaf 2014. Bu swyddogion yn ymgynghori ag Uned Partneriaid Cymdeithasol

Cymru cyn cyhoeddi'r Datganiad a chyflwynwyd cynnwys y Datganiad i Commerce Cymru yn hydref 2013 (wythnos yn dechrau 23 Medi) er mwyn iddynt gyfrannu'n llawn at ddatblygiad y polisi a darparu adborth ar yr holl gwestiynau penodol a godwyd.

**Datblygu Polisi**

Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Allanol i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi gyda'r aelodau'n cynrychioli Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru), yr Athro Ewart Keep o Brifysgol Rhydychen, a chynrychiolydd o'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol. Mae'r Grŵp Cyfeirio Allanol wedi annog dull cryf a chydweithredol ar gyfer polisi cyflogaeth a sgiliau'r dyfodol. Mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar brofi syniadau polisi sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Sgiliau, cynghori ar gynnwys y cynllun cyn ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014, ac ystyried sut i gyfleu'r prif negeseuon i gyflogwyr, undebau a darparwyr.

**Ymgynghoriadau**

Dechreuodd yr Is-adran Cyflogaeth a Sgiliau ymgynghoriad ar gyd-fuddsoddi ym mis Chwefror 2014 (a ddaeth i ben ym mis Mai 2014) a ddenodd ymateb aruthrol, yn cynnwys gan gyflogwyr, i drefniadau cyllido sgiliau ar gyfer y cyfnod ôl-19. Defnyddiwyd yr ymatebion hyn wrth lunio'r Cynllun Gweithredu Sgiliau.

**Mathau eraill o ymgysylltu â busnesau / partneriaid cymdeithasol – gweithgareddau i ddod**

Mae'r isadran wedi ymgynghori ac wedi derbyn cyfraniadau gydol y broses gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru yn ogystal â gwaith cryf ar draws y Llywodraeth, yn enwedig gydag Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth i fusnesau yng Nghymru yn gydgysylltiedig a chydlynol yn ystod y cyfnod.

Ym mis Hydref 2014, bydd yr Is-adran Cyflogaeth a Sgiliau'n lansio Porth Sgiliau newydd, a fydd yn un gwasanaeth ymgysylltu, asesu ac atgyfeirio i unigolion a chyflogwyr sydd am gael gwybodaeth am bopeth yn ymwneud â sgiliau. I gyflogwyr, bydd y Porth Sgiliau yn rhan o Busnes Cymru ac yn cynnig cymorth i nodi a gweithredu ar anghenion sgiliau eu gweithlu. I unigolion, bydd y Porth Sgiliau'n adeiladu ar y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd trwy Gyrfa Cymru ac yn darparu cyfleoedd dysgu, cyngor ac arweiniad ar sgiliau i oedolion o bob oed i'w helpu i wella eu sgiliau a'u rhagolygon am i gael gwaith. Bydd cyngor i fusnesau ac unigolion yn cael ei gefnogi gan Wybodaeth am y Farchnad Lafur i sicrhau ei fod yn ystyried tueddiadau rhanbarthol a'r galw lleol am gyflogaeth.

Yn ystod 2014-15 hefyd, bydd yr isadran yn dechrau prosiectau defnyddio sgiliau mewn dau sector allweddol - y sectorau Creadigol ac Adeiladu - a

byddant yn gallu darparu diweddariad ar ein cynllun peilot cychwynnol gan ddefnyddio eu rhwydweithiau cyflogwyr a thrafod sut i fwrw ymlaen â'r agenda hon yng Nghymru.

Mae'r Is-adran Cyflogaeth a Sgiliau yn gweithredu hefyd fel pwynt cyswllt gydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU o ran y berthynas rhwng polisi sgiliau a pholisi cyflogaeth nad yw wedi'i ddatganoli. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig adroddiad ar berfformiad Rhaglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013 a arweiniodd at greu *Gweithgor Mynediad i Gyflogaeth: Cymru* sy'n gyfrifol am archwilio cyfleoedd i gysoni cyfrifoldebau a rhaglenni'r ddwy weinyddiaeth yn well. Mae disgwyl i'r Gweithgor adrodd yn ôl i Weinidogion ym mis Medi 2014.

2. **Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau:**

**Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16**

Daeth yr Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16 i ben gydag adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013. Y weledigaeth ar gyfer yr adolygiad oedd creu system newydd sy'n buddsoddi mewn teithiau'r dysgwr sy'n gwella cyfleoedd bywyd dysgwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer byd gwaith neu ddysgu pellach. Daeth yr adroddiad terfynol i'r casgliad mai rhaglenni yn hytrach na chymwysterau fyddai wrth wraidd y system newydd. Roedd yr adroddiad hefyd yn disgrifio sut y byddai'r system newydd yn canolbwyntio ar gynllunio a monitro yn hytrach na chael ei yrru gan gyllid.

Gydol yr Adolygiad, bu'r Fforwm Rhanddeiliaid yn gweithredu fel cyfrwng ymateb i syniadau, gan ddarparu cyngor ac arweiniad i sicrhau y byddai'r model newydd yn ysgogi ymddygiad sy'n cyfrannu at dwf economaidd i Gymru. Bu'r aelodau yn pwyso a mesur pa mor rhesymol yw'r cynigion hyn ac i ba raddau y gellir eu cyflawni. Roedd y Fforwm Rhanddeiliaid yn cynnwys cydweithwyr mewnol a rhanddeiliaid allanol sy'n cynrychioli'r sector ôl-16 yng Nghymru ac yn cynnwys cynrychiolydd cyflogwyr a chynrychiolydd o'r Cyngor Sgiliau Sector.

Mae'r Is-adran yn bwriadu cyfarfod cynrychiolwyr cyflogwyr yn flynyddol i drafod sut mae canlyniadau'r system newydd yn bodloni disgwyliadau cyflogwyr. Bydd canlyniadau'r trafodaethau blynyddol hyn yn cael eu cyflwyno i'r rhwydwaith drwy'r broses gynllunio ac adrodd.

Cynhelir gwaith gyda chyflogwyr mewn partneriaeth â'r Is-adran Cymwysterau a Rheoliadau hefyd.

**Paneli Cynghori Cymwysterau Sector**

Mae Paneli Cynghori Cymwysterau Sectorau yn cynrychioli cyflogwyr ac ymarferwyr ac yn darparu trosolwg strategol o gymwysterau galwedigaethol mewn sector. Mae yna banel cwbl weithredol ar gyfer y maes Gofal, sy'n gweithio drwy Gyngor Gofal Cymru. Mae'r paneli ar gyfer Adeiladu, Peirianneg a Lletygarwch yn dechrau cael eu datblygu.

**Blaenoriaethau Cymwysterau Sector – Gweithgarwch i ddod yn 2014-15**

Blaenoriaethau Cymwysterau Sector – ar gyfer cyfnod comisiynu 2014-15, bydd manyleb y blaenoriaethau'n cynnwys dau weithgaredd gwahanol i'w cyflawni gan y Cynghorau Sgiliau Sector. Bydd y gweithgaredd cyntaf yn galluogi sectorau i gynnal gwiriadau perthnasedd a gwerth ar-lein ar yr holl gymwysterau sy'n disgwyl yn eu maes perthnasol nhw, yn seiliedig ar y System Ddosbarthu Meysydd Pwnc Sectorau (SSACS) ail haen. Yr ail weithgaredd fydd gofyniad i Sefydliadau'r Cyngor Sgiliau Sector adolygu'r Cynlluniau Cyflawni llawn amser ôl-16 blynyddol (yn seiliedig ar godau 1 i 15 Pynciau Sectorau) yn unol â blaenoriaethau cymwysterau'r sectorau.

**Dysgu Seiliedig ar Waith**

Mae Dysgu Seiliedig ar Waith yn rhoi'r cyfle i weithwyr newydd ddysgu sgiliau hanfodol wrth weithio. Mae yna amrywiaeth o raglenni seiliedig ar waith ar gael i gynorthwyo dysgwyr neu gyfranogwyr ac mae'r rhain yn cynorthwyo tua 61,000 o bobl ar hyn o bryd. Caiff y rhaglenni hyn eu darparu gan rwydwaith o ddarparwyr ac maent yn cynnwys Prentisiaethau, Hyfforddiaethau a Twf Swyddi Cymru.

Caiff y rhaglenni hyn eu darparu drwy rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant preifat, y sector gwirfoddol, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol.

Mae Cangen Darpariaeth Dysgwyr yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau'n gyfrifol am gaffael Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae ymarfer tendro'n cael ei gynnal ar gyfer darparu Dysgu Seiliedig ar Waith yn 2015-19.

Mae'r Gangen yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod y systemau a'r prosesau i ddenu cyllid priodol ar gyfer dysgu ôl-16 yn cael eu darparu ac am gynnal prosesau rheoli contract i sicrhau bod darparwyr hyfforddiant yn cyflawni yn unol â'u cytundebau. Mae'r olaf yn cynnwys trafodaethau a chyfarfodydd rheolaidd â darparwyr hyfforddiant preifat, ar sail barhaus.

Yn achlysurol, mae swyddogion yn cyfarfod cyflogwyr i drafod cyfleoedd prentisiaeth.

**Datblygu System Prentisiaethau – Gweithgareddau i ddod yn 2014-15**

Roedd y Cynllun Gweithredu Sgiliau, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014, yn amlinellu'r bwriad i ymgynghori ar ddyfodol fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru.

Drwy'r ymgynghoriad hwn bydd yr Adran Addysg a Sgiliau'n ceisio gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid ehangach i gael eu barn ar sut y gall Cymru ddatblygu dull o ddatblygu fframwaith prentisiaethau sy'n adlewyrchu ein hanghenion a'n blaenoriaethau yn y dyfodol. Bydd yr ymgynghoriad yn darparu rhagor o dystiolaeth hefyd i gefnogi'r gwaith o weithredu polisi cyd-

fuddsoddi i Gymru. Ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy sefydlu grŵp cyfeirio cyflogwyr allanol fydd cam cyntaf proses ymgynghori arfaethedig.

Byddai'r ymgynghoriad arfaethedig yn cael ei gynnal mewn dau gam:

Cam 1: Sefydlu Grŵp Cyfeirio Cyflogwyr allanol i lywio a llunio cynnwys y ddogfen ymgynghori. Byddai'r Grŵp Cyflogwyr yn cyfarfod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2014.

Cam 2: Cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ym mis Rhagfyr 2014.

Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno wedyn i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ym mis Mawrth 2015.

### 3. Yr Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid

**Fforwm Strategol Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfaoedd**

Roedd yr adroddiad annibynnol, "Uchelgeisiau i'r dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru", yn argymell y dylid sefydlu fforwm strategol i helpu i ddarparu ffocws strategol ar gyfer y teulu o ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru.

Mewn ymateb i'r argymhelliad uchod sefydlodd Gweinidogion Fforwm Strategol Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfaoedd, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Fforwm eisoes (hyd at 31 Mawrth 2014) gyda phedwerydd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 5 Tachwedd 2014.

Mae aelodau'r fforwm yn cynnwys:

Gyrfa Cymru; Gwasanaeth Gyrfaoedd Addysg Uwch; penaethiaid ysgolion uwchradd; cynrychiolwyr consortia addysg ac awdurdodau lleol; colegau addysg bellach; Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru; Y Gwasanaeth Ieuenctid; Canolfan Byd Gwaith; Cydffederasiwn Diwydiant Prydain; Ffederasiwn Busnesau Bach; Cyrff Proffesiynol; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Estyn a Grwpiau Cadetiaid y Lluoedd Arfog.

Mae'r fforwm yn gyfrifol am:

- ddarparu cyngor, arweiniad a her i'r Gweinidog ac i swyddogion ar ddatblygu a monitro dull strategol o ddatblygu gwasanaeth gyrfaoedd lle y bo'n briodol;
- canolbwyntio ar ddarpariaeth o ansawdd uchel a sicrhau ansawdd safonau proffesiynol i ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd;
- helpu i benderfynu ar waith ymchwil y dyfodol a llywio datblygiad argymhellion ar gyfer gwaith pellach;
- hyrwyddo gwerth Addysg, Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd.

**Cyswllt Gyrfa Cymru â Busnesau**

Career Choices Dewis Gyrfa (CCDG) yw'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd proffesiynol ac annibynnol i bob oedran yng Nghymru. Daeth CCDG yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2013. Mae CCDG yn parhau i ddarparu gwasanaethau o dan frand Gyrfa Cymru.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd mae CCDG yn gyfrifol am hwyluso a chynorthwyo ysgolion i ddarparu Fframwaith Cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a Bagloriaeth Cymru drwy ryngweithio â chyflogwyr a busnesau i ddarparu profiad a chysylltiad â byd gwaith i bobl ifanc mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys darparu'r Gronfa Ddata Profiad Gwaith Genedlaethol (NWED) o leoliadau profiad gwaith sydd wedi'u gwirio o ran iechyd a diogelwch a chysylltu cyflogwyr ag ysgolion gan ddefnyddio model Dosbarth Busnes, Busnes yn y Gymuned i ddod ag enghreifftiau a phrofiadau o'r byd go iawn i gwricwlwm ehangach yr ysgol.

Yn 2013-14 bu Gyrfa Cymru yn ymwneud â busnesau mewn nifer o ffyrdd –

- Cyfanswm yr ymweliadau ac achosion eraill o gyswllt arwyddocaol â chyflogwyr – 9,127
- Nifer y myfyrwyr a leolwyd drwy NWED – 22,097
- Nifer y cyflogwyr cyfredol sy'n cefnogi NWED – 5,577
- Nifer y cyflogwyr newydd sy'n cefnogi NWED – 2,805
- Nifer yr ymweliadau iechyd a diogelwch a gwblhawyd – 5,952

Yn ogystal, mae CCDG yn gyfrifol am ddarparu elfennau ymwneud â'r cyhoedd y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a rhaglenni Twf Swyddi Cymru drwy Gyrfacymru.com a darparu gwasanaeth Jobs in Wales i bobl ifanc yn y farchnad lafur (16-18 oed) nad oes ganddynt hawl i dderbyn cymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith. Mae darparu'r gwasanaethau hyn yn gofyn am ryngweithio sylweddol gyda chyflogwyr a busnesau. Yn 2013-14 cyflawnodd CCDG y canlynol -

- Nifer y llefydd Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a hysbysebwyd – 1,691
- Nifer y llefydd Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a lenwyd – 548
- Nifer swyddi gwag Twf Swyddi Cymru a hysbysebwyd – 5,113
- Nifer swyddi gwag Jobs in Wales a hysbysebwyd - 625

**4. Is-adran Addysg Uwch**

**Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)**

Mae CCAUC wedi ariannu amrywiaeth o fentrau cyflogadwyedd i raddedigion mewn Sefydliadau Addysg Uwch fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Cytundeb ar Sgiliau a Chyflogadwyedd i Gymru a gynlluniwyd i ysgogi cyfleoedd profiad

gwaith, cynyddu nifer y cyrsiau a gymeradwywyd gan gyflogwyr a sefydlu sgiliau a chyflogadwyedd ymhellach yn y cwricwlwm AU. Mae ymgysylltu â chyflogwyr yn thema sydd i'w gweld yn yr holl brosiectau a ariennir gan CCAUC a'r Cynlluniau Gweithredu Sgiliau a Chyflogadwyedd ehangach y mae Sefydliadau Addysg Uwch wedi bod yn eu gweithredu i gefnogi'r Cytundeb.

**GO Wales**

Yn y flwyddyn ddiwethaf mae GO Wales wedi rhoi cefnogaeth ariannol i 685 o gyflogwyr yng Nghymru sydd naill ai wedi cynnal lleoliadau GO Wales i fyfyrwyr Addysg Uwch neu raddedigion neu sydd wedi derbyn cymorth i hyfforddi eu staff graddedig i wneud mwy o gyfraniad i'w busnes. Mae'r prosiect wedi gweithredu fel cyfrwng i ddarparu doniau i fusnesau yng Nghymru, yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig, gan hwyluso 747 o leoliadau cymorthdaledig a 237 cyfnod blas ar waith tymor byr, a chreu perthynas rhwng cyflogwyr a myfyrwyr / graddedigion Addysg Uwch (llawer ohonynt yn mynd ymlaen i drefniant mwy parhaol) ac ar yr un pryd, galluogi busnesau i gael gafael ar sgiliau a gwybodaeth lefel uchel yn ddidrafferth.

**Cronfa Arloesi ac Ymgysylltu CCAUC**

Ar hyn o bryd mae Cronfa Arloesi ac Ymgysylltu CCAUC yn cyllido (tan fis Gorffennaf 2015) nifer o brosiectau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflenwi graddedigion cyflogadwy ac entrepreneuraidd i'r gweithlu:

(i) Mae Cynllun Cymorth Menter Cymru gyfan yn datblygu ac annog egin entrepreneuriaid o blith holl fyfyrwyr Cymru i wireddu eu potensial ar gyfer creu busnesau newydd ac arloesol a chael gafael ar y cymorth sydd ar gael gan wasanaethau cychwyn busnes Llywodraeth Cymru. Y nod cyffredinol yw annog myfyrwyr a graddedigion o Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach Cymru i feithrin eu doniau a'u hunanhyder i wella eu sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth.

(ii) Mae partneriaeth strategol rhwng Prifysgol Caerdydd a Chyngor Caerdydd yn ceisio sbarduno arloesedd yn ninas-ranbarth Caerdydd drwy:
- Gyflenwi graddedigion entrepreneuraidd ac arloesol i'r farchnad lafur
- Arwain a datblygu mentrau sy'n seiliedig ar arloesedd a'u harwain gan her a fydd yn creu atebion cyfannol i heriau byd-eang
- Datblygu Canolfan Arloesedd Caerdydd fel lleoliad ar gyfer busnesau newydd arloesol gan raddedigion a busnesau â phosibilrwydd uchel o dwf.

(iii) Mae Canolfan Sgiliau CADARN Skills yn gweithio ar draws Partneriaeth Ranbarthol y Gogledd (Prifysgolion Bangor, Aberystwyth, Glyndŵr a'r Brifysgol Agored). Ei nod cyffredinol yw

cynyddu'r hyfforddiant Addysg Uwch a'r ddarpariaeth DPP sydd ar gael i gyflogwyr a'u gweithluoedd ledled y Gogledd a'r Canolbarth.

**Adolygiad y Gogledd-ddwyrain**

Cyhoeddodd y Gweinidog adroddiad terfynol yr Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Uwch yn y Gogledd-ddwyrain ar 25 Medi 2013. Cyflwynodd yr adroddiad argymhellion ar ba ffurf o ddarpariaeth Addysg Uwch fyddai'r orau ar gyfer diwallu anghenion economaidd a chymdeithasol ac anghenion defnyddwyr yn y rhanbarth. Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn seiliedig ar ganfyddiadau dros 160 o gyfweliadau gyda chynrychiolwyr o fyd addysg, awdurdodau lleol, gwleidyddiaeth, cyflogwyr a diwydiant, ynghyd ag amrywiaeth o gyflwyniadau ysgrifenedig.

**Adolygiad Diamond**

Ar 18 Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Gweinidog fod yr Athro Syr Ian Diamond, Is-Ganghellor Prifysgol Aberdeen, wedi cytuno i Gadeirio Adolygiad o Drefniadau Cyllid Addysg Uwch a Myfyrwyr yng Nghymru. Mae cylch gorchwyl y Panel yn cynnwys ystyried darpariaeth i ôl-raddedigion a phryderon a/neu ofynion y sector diwydiant. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Panel yr Adolygiad ar 29 Ebrill 2014. Bydd yn adrodd i Lywodraeth nesaf Cymru ym mis Medi 2016. Gwaith Panel yr Adolygiad yw cyflwyno adroddiad sy'n darparu cyngor clir ac argymhellion gyda chostau ar gyfer cyllido trefniadau cyllid y sector Addysg Uwch a myfyrwyr yn y dyfodol yng Nghymru - argymhellion sy'n bosibl i'w cyflawni, sy'n fforddiadwy a chynaliadwy.

Mae'r Panel yn disgwyl trafod gyda sefydliadau fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Sefydliad y Cyfarwyddwyr a'r Ffederasiwn Busnesau Bach, a rhanddeiliaid allweddol eraill, i sicrhau bod y sector busnes yn cymryd rhan yn yr adolygiad. Mae Panel yr Adolygiad yn cynnwys cynrychiolydd o'r sector busnes hefyd – mae Gary Griffiths, Airbus UK, Pennaeth Rhaglenni Gyrfaoedd Cynnar, yn aelod o Banel yr Adolygiad.

**Grŵp Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr**

5. **Is-adran Cymwysterau a Rheoleiddio**

**Datblygu Polisi**

Mae'r Is-adran Cymwysterau a Rheoleiddio yn gyfrifol am ddatblygu a rheoleiddio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru, Bagloriaeth Cymru, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a rheoli rhaglen newid fawr i weithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau.

Nod yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru oedd sicrhau bod gennym gymwysterau sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi ac sy'n diwallu anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Medi 2011 a mis Tachwedd 2012 a chyflwynodd yr

adroddiad terfynol 42 o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu system gymwysterau gadarn, unigryw o safon uchel i Gymru.

Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd bod Llywodraeth Cymru'n derbyn argymhellion yr adroddiad terfynol yn gyffredinol gyda'r Adran Addysg a Sgiliau yn lansio rhaglen newid fawr i weithredu argymhellion yr Adolygiad dan reolaeth yr Is-adran Cymwysterau a Rheoleiddio.

Roedd yr Adolygiad o Gymwysterau wedi'i seilio'n gadarn ar dystiolaeth ac wedi elwa ar gyfraniad sylweddol gan randdeiliaid, yn cynnwys cyflogwyr, ymarferwyr a'r sector prifysgolion; mae'r rhaglen newid yn dilyn trywydd tebyg gyda nifer o grwpiau wedi'u sefydlu a gweithgareddau eraill wedi'u cyflawni i hwyluso ymgysylltiad â'n partneriaid cymdeithasol. Mae manylion y gweithgareddau hyn isod.

**Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yr Adolygiad o Gymwysterau**

Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio'r Adolygiad o Gymwysterau yn 2013 i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cael gwybod am, ac yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r dull o weithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau. Yn arbennig, mae'n cynghori ar bolisi a darpariaeth ar draws pob un o 42 argymhelliad yr Adolygiad, yn cynnwys sefydlu Cymwysterau Cymru; yn darparu her a chraffu allanol i sicrhau bod y gweithredu'n effeithiol a'r cyfathrebu'n glir; yn darparu adborth i dîm y rhaglen ar gynigion a chynnydd; ac yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwybodaeth i'w chynulleidfaoedd allweddol am gynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith.

Huw Evans OBE, Cadeirydd yr Adolygiad o Gymwysterau yw arweinydd y grŵp ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o undebau llafur a chyrff proffesiynol sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a hyfforddi yng Nghymru a sefydliadau cyflogwyr (Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru, Y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chyngor Gofal Cymru). Mae'r grŵp hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr llywodraeth leol yng Nghymru a sector Addysg Uwch Cymru a'r DU.

Cyfarfu'r grŵp deirgwaith rhwng mis Gorffennaf 2013 a mis Chwefror 2014. Mae eitemau ar yr agenda wedi cynnwys datblygu cymwysterau newydd a diwygiedig i'w haddysgu o fis Medi 2015 ymlaen, y strategaeth gyfathrebu ar gyfer rhaglen weithredu'r Adolygiad o Gymwysterau a datblygiadau gyda Chymwysterau Cymru. Ym mis Gorffennaf, gwahoddwyd aelodau'r grŵp i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ar fanylebau Safon Uwch ac UG drafft a gyhoeddwyd ar wefan CBAC.

**Grŵp Effaith ar y Gweithlu yr Adolygiad o Gymwysterau**

Sefydlwyd Grŵp Effaith ar y Gweithlu yr Adolygiad o Gymwysterau ym mis Tachwedd 2013 er mwyn cael trafodaeth reolaidd a ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r undebau llafur a'r cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli'r gweithlu

addysg a hyfforddiant, yn cynnwys staff cymorth, yng Nghymru, ynghylch effaith gweithredu argymhellion yr adolygiad.

Mae'r grŵp yn gyfle i undebau llafur a chyrff proffesiynol sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a hyfforddiant i gyflwyno materion (cyfredol a rhai posibl yn y dyfodol) sy'n effeithio ar y gweithlu yn sgil gweithredu'r argymhellion. Mae'r grŵp hefyd yn darparu cyfle i nodi ac ystyried camau gweithredu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl ar y gweithlu addysg a hyfforddiant.

Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cymwysterau a Rheoleiddio yr Adran Addysg a Sgiliau ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o bob undeb sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a hyfforddiant (yn cynnwys staff cymorth) yng Nghymru a chynrychiolwyr o Colegau Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

Cyfarfu'r Grŵp ddwywaith rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Mawrth 2014 gydag eitemau agenda yn cynnwys trafodaeth ar y cymwysterau newydd a diwygiedig i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2015 a chynlluniau Llywodraeth Cymru, CBAC a chonsortia rhanbarthol i gefnogi'r gweithlu i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau newydd a diwygiedig.

Roedd yr Adolygiad o Gymwysterau'n cydnabod y byddai datblygu Bagloriaeth Cymru ymhellach ac yn briodol yn cynnig fframwaith cymwysterau cryf, cytbwys ac unigryw i Gymru. Sefydlwyd Grŵp Llywio Bagloriaeth Cymru i oruchwylio'r diwygiadau i'r cymhwyster gyda golwg ar eu haddysgu gyntaf ym mis Medi 2015. Mae'r Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, Y Ffederasiwn Busnesau Bach, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Colegau Cymru, CYDAG, Addysg Uwch Cymru a chynrychiolwyr o'r unedau llafur.

Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014, cynhaliodd Huw Evans OBE, Cadeirydd yr Adolygiad o Gymwysterau gyfres helaeth o gyfarfodydd gydag uwch reolwyr o bob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru, Sefydliadau Addysg Uwch yn Lloegr a chwmnïau angor yng Nghymru i drafod y diwygiadau arfaethedig i gymwysterau yng Nghymru a chael adborth gan randdeiliaid.

Yn gynnar yn 2014, cynhaliwyd cyfres o sioeau teithiol ledled Cymru i gyflwyno'r cynlluniau ar gyfer cymwysterau newydd a diwygiedig i arweinwyr ysgolion ac uwch reolwyr ac i dderbyn adborth i lywio'r gwaith datblygu. Anfonodd tua 80 y cant o ysgolion yng Nghymru gynrychiolwyr i'r digwyddiadau a chafwyd adborth cadarnhaol gan y mynychwyr.

**Cymwysterau TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru diwygiedig**

Roedd yr Adolygiad o Gymwysterau'n canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd a rhifedd ac roedd yr argymhellion yn cynnwys datblygu 2 gymhwyster TGAU mathemateg newydd (un ar gyfer rhifedd a'r llall ar gyfer technegau mathemateg) a chymwysterau TGAU Cymraeg a Saesneg diwygiedig. Dylai'r cymwysterau TGAU newydd hyn adeiladu, yn glir a phendant, ar y lefelau

llythrennedd a rhifedd a ddisgwylir erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 a rhoi mwy o sicrwydd o sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Roedd yr Adolygiad o Gymwysterau yn argymell hefyd y dylid datblygu Bagloriaeth Cymru diwygiedig a chadarnach, gan adeiladu ar gryfderau'r model cyfredol, a chanolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr ac addysg uwch, yn cynnwys llythrennedd a rhifedd. Y cymwysterau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg/Saesneg a Mathemateg – Rhifedd ddylai fod y prif gymwysterau i'w defnyddio i asesu llythrennedd a rhifedd yn y Fagloriaeth ddiwygiedig. Bydd sgiliau eraill (Llythrennedd Digidol, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Cynllunio a Threfnu, Creadigrwydd ac Arloesi ac Effeithiolrwydd Personol) yn cael eu harddangos a'u hasesu o fewn Bagloriaeth Cymru drwy'r dystysgrif Her Sgiliau. Mae hon yn cynnwys 3 Her (Cymunedol, Menter a Chyflogadwyedd a Dinasyddiaeth Fyd-eang) a phrosiect unigol.

Ar ôl derbyn argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i ddiwygio'r cymwysterau. Bydd cymwysterau TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, Mathemateg - Rhifedd a Mathemateg, Bagloriaeth Cymru fwy trylwyr a chymwysterau diwygiedig Sgiliau Hanfodol Cymru yn cael eu cyflwyno ym mis Medi 2015, ynghyd â 14 o gymwysterau Safon Uwch diwygiedig a chymwysterau TGAU diwygiedig mewn Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg. Mae cyfrannau pellach o gymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig yn cael eu datblygu i'w cyflwyno ym mis Medi 2016 a 2017.

**Cymwysterau Galwedigaethol**

Nod cymwysterau galwedigaethol yw rhoi'r wybodaeth, y sgiliau ac mewn rhai achosion, cymwyseddau galwedigaethol i ddysgwyr weithio mewn rôl neu sector economaidd penodol. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda gwledydd eraill y DU a Chomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau i gefnogi Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y DU gyfan sy'n sail i gymwysterau galwedigaethol a fframweithiau prentisiaethau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cyfarfod yn rheolaidd â chyrff y sectorau sy'n gyfrifol am y Safonau.

Cyflwynodd yr Adolygiad o Gymwysterau argymhellion i sicrhau bod unrhyw gymwysterau sy'n derbyn arian cyhoeddus yng Nghymru yn berthnasol, yn fuddiol ac yn drwyadl. Gan adeiladu ar weithgareddau Blaenoriaeth Cymwysterau Sector a gyflwynwyd yn 2012 lle gwahoddir cyrff sectorau i roi barn ar yr holl gymwysterau newydd a diwygiedig a gyflwynir i'w defnyddio yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio i weithredu proses porthgadw newydd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a threfniadau sicrhau ansawdd diwygiedig. Wrth ddatblygu'r trefniadau newydd a diwygiedig hyn mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n helaeth â sefydliadau cynrychioliadol yn cynnwys y Cynghorau Sgiliau Sector, Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu, Y Cydgyngor Cymwysterau, Colegau Cymru, Rhwydweithiau Cwricwlwm Addysg Bellach, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â gweithio tuag at sefydlu Paneli Cynghori Cymwysterau Sector (fel y cyfeiriwyd atynt yn Adran 2).

**Rhaglen Ymgysylltu â Chyflogwyr ar Rifedd**

Cafodd y Rhaglen Ymgysylltu â Chyflogwyr ar Rifedd, a lansiwyd ym mis Medi 2013, ei sefydlu yn unol ag ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i wella cyrhaeddiad mewn ysgolion drwy godi safonau rhifedd. Yn y bôn, mae'r rhaglen yn helpu athrawon a disgyblion i gydnabod pwysigrwydd a pherthnasedd rhifedd yn y byd gwaith, drwy ddangos enghreifftiau o ddefnyddio rhifedd mewn bywyd go iawn. Drwy gyswllt uniongyrchol â chynrychiolwyr o fyd busnes a diwydiant, gall disgyblion gael budd o dderbyn cymorth a sylw unigol i ddatblygu eu sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau newydd ac amrywiol, yn ogystal â chynyddu eu cymhelliant, hyder, gwybodaeth, hunan-barch a sgiliau cyfathrebu.

Er mwyn darparu gwasanaeth broceriaeth ym 4 rhanbarth consortia Cymru i ddatblygu a helpu i hwyluso'r cysylltiadau hollbwysig hyn rhwng ysgolion a busnes, mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contractau i dri sefydliad mawr yn y trydydd sector: Techniquest, Techniquest Glyndŵr, a Steam Powered Stories, yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol am ddyfarniadau Grant o Raglen Ymgysylltu â Chyflogwyr ar Rifedd ym mis Awst 2013. Mae'r contractau'n cwmpasu cyfnod cychwynnol o 2 flynedd, a ddechreuodd ym mis Medi 2013 a phara tan fis Mawrth 2015. Mae'r rhaglen yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyflogwyr mawr (e.e. GE Aviation), canolig (e.e. Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot) a bach (e.e. cwmni gweithgynhyrchu Dragon Leather Products), a ddaw o nifer o sectorau gwahanol, yn cynnwys Chwaraeon a Hamdden, Ynni, Hedfan, Diwydiannau Creadigol, yr Amgylchedd, Amaethyddiaeth, y Cyfryngau a Busnes.

Mae'r model Ymgysylltu â Chyflogwyr ar Rifedd yn cefnogi prif negeseuon y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, gan gynnig cyfle ychwanegol i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau perthnasol eraill.

**Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd**

Gwyddom fod gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd yn hanfodol i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'n llwyddiannus drwy'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac i addysg bellach a thu hwnt i fyd gwaith. Er mwyn cefnogi'r dasg o gryfhau sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr aethom ati i gyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd statudol yn 2013. Adnodd cynllunio cwricwlwm yw'r Fframwaith yn anad dim, sy'n cefnogi pob athro ac athrawes i ymwreiddio llythrennedd a rhifedd wrth addysgu'r cwricwlwm. Mae hefyd yn nodi disgwyliadau blynyddol clir ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob dysgwr o 5 i 14 oed ac yn helpu ysgolion i weld beth yw'r ffordd orau o herio a chynorthwyo dysgwyr.

Mae'r Fframwaith yn gosod nod uchel yn fwriadol ac yn cyflwyno disgwyliad bod ysgolion yn sicrhau eu bod yn ymwreiddio'r dasg o addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm drwyddo draw. Mae casgliad cynhwysfawr o ganllawiau a deunyddiau hyfforddi ar-lein ar gael i gynorthwyo athrawon ac uwch reolwyr ysgolion i ymwreiddio'r Fframwaith.

Rydym yn bwriadu ymestyn y Fframwaith i gefnogi llythrennedd a rhifedd sy'n datblygu rhwng 3-5 oed yn y Cyfnod Sylfaen. Yn yr un modd, er mwyn sicrhau dilyniant o ddatblygiad o'r Cyfnod Sylfaen yr holl ffordd i Gyfnod Allweddol 4.

**Ymgynghori**

Er mwyn llywio datblygiad y cymwysterau TGAU newydd, y cymwysterau Safon Uwch ac UG diwygiedig a Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig, cynhaliwyd nifer o arolygon ar-lein rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Ionawr 2014 i gael barn ar y newidiadau arfaethedig. Cyhoeddwyd dolenni i'r arolygon ar wefan Llywodraeth Cymru a'u cyhoeddi yn e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg ôl-16. Dosbarthwyd y ddolen i'r arolygon i bawb a ymatebodd i'r Adolygiad o Gymwysterau hefyd yn cynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru a'r Ffederasiwn Busnesau Bach ac i'r gwahanol grwpiau rhanddeiliaid y bu'r Adran yn trafod gyda nhw yn ystod y broses o ddatblygu'r cymwysterau. Derbyniodd pob arolwg rhwng 100 a 150 o ymatebion.

Roedd cyfnod gweithredu Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) rhwng 2003 a 2014. Cynhaliwyd adolygiad ansoddol wedi'i gomisiynu'n annibynnol am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae cyfnod gweithredu FfCChC wedi'i gwblhau a chorff o brofiad a barn wedi ffurfio ynglŷn â'i werth a'i weithrediad, sy'n gyfle i gasglu barn. Yn ail, roedd yr Adolygiad o Gymwysterau, a dderbyniwyd yn gyffredinol gan Weinidogion ym mis Ionawr 2013, yn egluro pwysigrwydd system gymwysterau symlach i Gymru.

Mae'r ffactorau hyn wedi dangos bod angen strategaeth, ac wedi rhoi cyfle i gasglu tystiolaeth i greu strategaeth briodol ar gyfer strwythur a chyfeiriad fframwaith cymwysterau cenedlaethol i Gymru yn y dyfodol. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwaith adolygu rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Mawrth 2014 gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhellion ar y modd y dylai Llywodraeth Cymru wella a hyrwyddo FfCChC yn y dyfodol.

**Gweithgareddau'r dyfodol**

Bydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a Grŵp Effaith y Gweithlu yr Adolygiad o Gymwysterau'n parhau i gyfarfod fel bo angen yn ystod 2014/15 gyda'r ddau grŵp yn dirwyn eu gweithgareddau i ben erbyn mis Medi 2015 gyda chwblhau'r rhaglen newid a sefydlu Cymwysterau Cymru.

Gan mai partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC yw datblygu FfCChC, cymerwyd camau gan swyddogion Llywodraeth Cymru i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CCAUC, Gyrfa Gymru, Colegau Cymru, Sefydliadau Dyfarnu a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i adolygu'r argymhellion. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Awst 2014. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cytuno ar flaenoriaeth ac effaith pob argymhelliad ac yn

cynghori ar y ffordd orau o'u datblygu gan wneud cyflwyniad i'r Gweinidog ddiwedd hydref.

## 6. Tîm y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm yr Ysgol

### Gweithgareddau i ddod yn 2014-15

### Adolygiad Donaldson

Ym mis Mawrth eleni, penodwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol, cynhwysfawr o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru. Ei gylch gwaith yw argymell gweledigaeth glir ar gyfer addysg yng Nghymru, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, gan gysylltu'n uniongyrchol â'n system gymwysterau newydd. Mae'r Athro Donaldson yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes yn ystod 2014/15. Bydd yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gynnar yn 2015.

### Her Ysgolion Cymru

Er nad oes unrhyw weithgarwch wedi'i gadarnhau ar hyn o bryd rydym yn debygol o ymgysylltu â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain, Y Ffederasiwn Busnesau Bach a Sefydliad y Cyfarwyddwyr wrth ddatblygu Her Ysgolion Cymru i ddisgyblion dros y 12 mis nesaf gyda'r nod o ymgysylltu â'r sector busnes.

Gwybodaeth gefndir

Mae Her Ysgolion Cymru yn cyflymu ac yn crynhoi ymdrechion gwella ysgolion Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar ysgolion uwchradd yng Nghymru sy'n wynebu'r her fwyaf o ran amgylchiadau a cham datblygu. Bydd yn cynnwys eu clystyrau o ysgolion cynradd hefyd.

Er bod adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar addysg Cymru yn datgan bod perfformiad myfyrwyr Cymru yn llai dibynnol ar gefndir economaidd-gymdeithasol na chyfartaledd OECD, mae Llywodraeth Cymru am wneud llawer mwy i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad.

Yn y strategaeth gyffredinol ar gyfer gwella ysgolion a nodwyd yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae Her Ysgolion Cymru yn cynnwys ysgolion sydd wedi bod yn y Bandiau is dros y tair blynedd diwethaf, lle mae llawer o ddisgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim. Nod yr Her yw grymuso a galluogi'r Ysgolion Llwybrau Llwyddiant hyn i allu gwella eu hunain yn barhaus i adeiladu ar arferion da cyfredol, gan gynnig cymorth ychwanegol a monitro effaith eu hymdrechion.

Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r Her ar gamau gwahanol o'u taith wella a bydd gan bob un ei chryfderau a'i meysydd ei hun i'w gwella. Nid yw'r Her yn cymryd yn ganiataol lle dylai ysgol ganolbwyntio ei hymdrechion: mae'n ymwneud â grymuso a rhoi adnoddau i'r ysgol gymryd rheolaeth a bod yn atebol am ei thaith wella ei hun.

Mae yna bedair prif thema ar gyfer yr Her, yn manteisio ar brofiadau Heriau Llundain a Manceinion Fwyaf. Y rhain yw arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu, y disgybl, a'r ysgol a'r gymuned - yn cynnwys rhieni neu ofalwyr.

**Llais y disgybl**

Buddiannau'r disgybl sydd wrth wraidd yr ymdrechion i wella ysgolion. Mae'r Her yn seiliedig ar gred bod pob plentyn yn gallu cyflawni, waeth beth fo'i amgylchiadau personol, ac ymwrthod â'r disgwyliadau is sy'n cael eu cysylltu'n rhy aml â disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Agwedd bwysig ar yr Her yw codi uchelgais a disgwyliadau personol disgyblion. Gallai ysgolion ystyried sut y gall eu cynllun datblygu gyfeirio gweithgareddau sy'n seiliedig ar y disgybl i sicrhau canlyniadau addysgol gwell i'w dysgwyr.

Er y dylid seilio'r rhain ar anghenion eu cohort o ddysgwyr dylid canolbwyntio ar sicrhau ymyriadau sy'n gwella presenoldeb, cyrhaeddiad a chyflawniad eu dysgwyr, gan godi eu dyheadau a'u huchelgeisiau i lwyddo yn eu dysgu yn y dyfodol, yn y gweithle ac yn ddiweddarach mewn bywyd. Bydd yr ysgol a'r Cynghorydd yn cael eu cefnogi drwy gyfeirio effeithiol a sianelu gweithgareddau tuag at????

**Ysgolion Llwybrau Llwyddiant**

Rydym wrthi'n penderfynu ar y cymorth y gall disgyblion fanteisio'n uniongyrchol arno fel 'Cynnig Disgybl' craidd. Bydd hwn yn canolbwyntio ar leihau effaith tlodi, a gweithio gyda phartneriaid yn y celfyddydau, chwaraeon a byd busnes.

**Cangen Llwybrau Dysgu 14-19**

Yn ystod y cyfnod, sefydlodd Cangen Llwybrau Dysgu 14-19 grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r Cynnig Cwricwlwm Lleol mewn ysgolion a cholegau. Roedd y grŵp yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys cynrychiolydd o Scottish Power i ddarparu cyfraniad o'r sector preifat.

**Is-adran y Gymraeg**

**Gweithgareddau 2013-2014**

**Grŵp gorchwyl a gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd**

Bu Is-adran y Gymraeg yr Adran Addysg a Sgiliau yn gweithio'n agos â'r Adran Addysg a Sgiliau i hwyluso gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen ar y cysylltiadau rhwng y Gymraeg a datblygu economaidd, a chyflwynodd

adroddiad ddechrau 2014. Arweiniwyd y grŵp gan Elin Rhys (Telesgop) ac roedd yn cynnwys academyddion sy'n arbenigo yn y sector busnes, yn ogystal â Dŵr Cymru, Capital Law, a Busnesau Bach a Chanolig.

Yn sgil gwaith y grŵp, mae elfen sylweddol o'n datganiad polisi Cymraeg newydd (Awst 2014) *Bwrw Mlaen, yn ymwneud â ch*ryfhau rôl busnesau yn y gwaith o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

**Gweithgareddau i ddod yn 2014-2015**

**Digwyddiadau Busnes**

Ym mis Gorffennaf 2014 trefnodd Is-adran y Gymraeg y cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio busnes: 'Cymraeg - y Brand Busnes' i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i fusnesau. Cynhelir rhagor o ddigwyddiadau yn hydref 2014.

Parhawyd i weithredu ein cynllun gweithredu i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg a chyfryngau digidol, yn cynnwys buddsoddiad o £250,000 mewn prosiectau digidol, a oedd yn cynnwys mentrau'r sector preifat.